# DATGANIAD CYFATHREBU
# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

## Rhagarweiniad

Pwrpas y ddogfen hon yw darparu datganiad clir a chynhwysfawr i roi sicrwydd y bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn cyfathrebu mewn ffordd glir ac amserol gyda'r holl randdeiliaid am Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

Mae'r Gwasanaeth wedi penodi Cyngor Sir Gaerfyrddin – Cronfa Bensiwn Dyfed (y Gweinyddwr) i weinyddu Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân ar ei ran. Hefyd, mae'r Gweinyddwr wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr i'w randdeiliaid drwy'r dulliau cyfathrebu mwyaf priodol, ac mae'r ddogfen hon yn cynnwys y cyfrifoldebau hynny. Gellir gweld datganiad polisi cyfathrebu'r Gweinyddwr ar ei wefan:

http://www.cronfabensiwndyfed.org.uk/cynllun-pensiwn-llywodraeth-leol/buddsoddi-a-gwybodaeth-y-gronfa/datganiad-polisi-cyfathrebu/

Rhaid cael strategaeth gyfathrebu effeithiol i sicrhau bod y Gwasanaeth yn cyflawni ei amcanion allweddol a'r egwyddorion mae wedi'u datgan. Mae'r ddogfen hon yn darparu trosolwg o'r dull a fabwysiadwyd gan y Gwasanaeth i sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn cael eu cyflawni.

## Adolygu

Bydd y Gwasanaeth yn monitro pa mor effeithiol y mae'r datganiad hwn yn cael ei ddilyn, a bydd yn adolygu'r cynnwys bob blwyddyn ac yn adrodd ynghylch y canfyddiadau i'r Bwrdd Pensiwn Lleol. Bydd y datganiad yn agored i gael ei adolygu os oes newidiadau arwyddocaol i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân neu unrhyw newidiadau gweithdrefnol yn y gwaith a wneir gan y Gwasanaeth neu gan y Gweinyddwyr.

Cafodd y Datganiad Cyfathrebu hwn ei gymeradwyo gan y Bwrdd Pensiwn Lleol yn ei gyfarfod ar 10 Medi 2018. Bydd newidiadau'n parhau i gael eu gwneud i sicrhau bod y gwaith cyfathrebu yn cael ei gofnodi.

## Amcan Allweddol

Cyflwyno gwybodaeth am bensiynau, hawliau, y ddeddfwriaeth a'r polisïau mewn arddull glir i sicrhau bod y rhanddeiliaid allweddol yn cael digon o wybodaeth am newidiadau nawr ac yn y dyfodol i Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

## Rhanddeiliaid Allweddol

Mae angen i'r Gwasanaeth gyfathrebu â chwe grŵp penodol o randdeiliaid, sef:

- Aelodau Etholedig
- Aelodau'r Cynlluniau (a'u cynrychiolwyr)
- Darpar Aelodau o'r Cynlluniau
- Gweinyddwr y Gronfa
- Rhai sy'n cynghori (megis Actiwari'r Gronfa, Cymdeithas Llywodraeth Leol)
- Cyrff eraill (megis Undeb yr FBU)

**Yr Egwyddorion Allweddol**

- Ymgynghori, lle bo modd, â rhanddeiliaid allweddol am unrhyw newidiadau arfaethedig yn y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â gweinyddu Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân
- Defnyddio'r dulliau cyfathrebu mwyaf priodol gan ystyried gwahanol anghenion y rhanddeiliaid allweddol
- Cyfleu deddfwriaeth dechnegol am bensiynau mewn iaith glir, os oes modd
- Cyfathrebu wyneb yn wyneb pan fo modd
- Gwerthuso pa mor effeithiol yw ein dulliau cyfathrebu, drwy ddefnyddio:
    - Holiaduron adborth
    - Monitro cwynion a negeseuon yn canmol

**Sut rydyn ni'n cyfathrebu ag Aelodau Etholedig?**

Mae adroddiadau'n cael eu paratoi i gyfathrebu ynghylch perfformiad sy'n gysylltiedig â:

- Gweinyddu
- Llywodraethu
- Dadansoddi risgiau

Dyma'r sianelau cyfathrebu a ddefnyddir:

- Cyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn Lleol
    - Adroddiadau ysgrifenedig
    - Nodiadau briffio
    - Eitemau ar yr agenda
    - Cyflwyniadau thematig
- Gwefan Pensiynau www.cronfabensiwndyfed.org.uk
- Gwefan yr Awdurdod
- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

**Sut rydyn ni'n cyfathrebu ag Aelodau'r Cynlluniau (a'u cynrychiolwyr)?**

Rydyn ni'n cyfathrebu â'n haelodau cyfredol a blaenorol drwy wahanol ddulliau, ac rydyn ni'n ceisio darparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

- **Cyhoeddiadau'r Gronfa Bensiwn**
  Mae modd gofyn am ganllawiau a thaflenni gwybodaeth am wahanol agweddau ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

- **Y Rhyngrwyd**
  Mae'r Gronfa wedi sefydlu gwefan i aelodau'r Gronfa Bensiwn, sef www.cronfabensiwndyfed.org.uk. Mae'r wefan yn cynnwys amrywiaeth lawn o wybodaeth am y Cynllun.

- **Pensiynau Ar-lein**
  Gall aelodau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân ddefnyddio cyfrifiannell buddion ar y wefan i'w helpu i gynllunio ar gyfer ymddeoliad. Hefyd, mae'r cyfleuster yn caniatáu i'r aelodau roi gwybod i'r Gwasanaethau Pensiwn am newidiadau yn eu manylion personol.

- **Cylchlythyr Briff Wythnosol i Weithwyr**
  Mae gwybodaeth yn cael ei chyflwyno yn y Briff Wythnosol, fel y bo angen, a hynny i roi gwybod i'r aelodau am faterion pensiwn. Bydd y cynnwys yn ymdrin â phynciau cyfredol yn ymwneud â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

- **Datganiadau Buddion Blynyddol**
  Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol, mae datganiad buddion blynyddol yn cael ei anfon yn uniongyrchol i gyfeiriad cartref pob aelod sy'n cyfrannu i'r Gronfa. Hefyd, mae Datganiadau Buddion Blynyddol yn cael eu rhoi i aelodau gohiriedig.

- **Gohebiaeth**
  Mae'r Gwasanaeth yn defnyddio'r post a'r e-bost i dderbyn ac anfon gohebiaeth.

- **Seminarau Ymddeoliad**
  Mae'r Gwasanaeth yn cynnal seminarau pensiwn blynyddol, sy'n cynnwys cyflwyniadau a chymorthfeydd, a hynny i gael cyswllt wyneb yn wyneb â'r aelodau sy'n ystyried ymddeol o fewn y 12 i 18 mis nesaf. Mae staff y Gronfa Bensiwn yn darparu cymorth i'r Gwasanaeth pan fydd y seminarau pensiwn yn cael eu trefnu.

- **Adroddiad a Chyfrifon**
  Mae'r Adroddiad a'r Cyfrifon yn cael eu llunio bob blwyddyn ac maent i'w gweld yn electronig ar wefan y Gwasanaeth.

**Sut rydyn ni'n cyfathrebu â darpar aelodau?**

- **Pecyn Dechreuwyr Newydd**
  Bob tro y mae gweithiwr newydd yn dechrau ar swydd gyda'r Gwasanaeth, rhoddir Pecyn Dechreuwr Newydd. Mae'r pecyn yn cynnwys arweiniad i'r Cynllun ac mae'n esbonio hawliau, buddion ac opsiynau i weithwyr newydd dan reolau'r Cynllun.

- **Gwefan**
  Mae amrywiaeth eang o wybodaeth am aelodaeth o'r Gronfa Bensiwn ar gael yn hawdd drwy wefan y Gwasanaethau Pensiwn.

**Sut rydyn ni'n cyfathrebu gyda staff Gweinyddwr y Gronfa? Tîm Rheoli'r Gwasanaethau Pensiwn**

Cronfa Bensiwn Dyfed sy'n gweinyddu'r Gronfa o ddydd i ddydd. Mae staff Cronfa Bensiwn Dyfed yn cynnwys y Rheolwr Pensiynau, Rheolwyr Pensiynau Cynorthwyol a staff uchel eraill.

- **Cysylltiadau ar e-bost /ffôn**
  Mae pob ymholiad am bensiynau yn cael eu cyfeirio at Gronfa Bensiwn Dyfed drwy e-bost neu gyswllt uniongyrchol ar y ffôn.

**Sut rydyn ni'n cyfathrebu â Chyrff Eraill? Megis Undebau Llafur**

Mae'r undebau llafur yn aelodau o Fwrdd Cynghori'r Cynllun a'r Bwrdd Pensiwn Lleol, pryd maent yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y materion cyfredol.

- **Gweithgor Cyfathrebu'r Gymdeithas Llywodraeth Leol**
  Mae cynrychiolydd o'r Gronfa Bensiwn ar y grŵp cenedlaethol hwn sy'n cwrdd yn rheolaidd. Mae staff o'r Gwasanaeth yn mynychu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Pensiynau Tân

- **Llywodraeth Ganolog**
  Mae'r Gwasanaeth a'r Gronfa Bensiwn yn cael bwletinau ac yn cyfnewid gwybodaeth gyda:
  - CIPFA
  - Cyllid a Thollau EM
  - Adran Actiwari'r Llywodraeth
  - Llywodraeth Cymru

**Diogelu Data**

- **Cyfrinachedd**
  Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi'i gofrestru fel Rheolydd Data gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac mae'n prosesu'r holl wybodaeth bersonol am aelodau'r Cynllun yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yr Undeb Ewropeaidd 2016/679.
  .
- **Datgelu**
  Os oes angen, caiff y Gronfa drosglwyddo rhai manylion penodol i drydydd parti os yw'r trydydd parti yn cyflawni swyddogaeth weinyddol i'r Gronfa.
  Yn ôl y gyfraith, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chyngor Sir Gaerfyrddin ddiogelu'r arian cyhoeddus y mae'n ei weinyddu. Gallant rannu gwybodaeth maent wedi'i chael gyda chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio arian cyhoeddus, a hynny er mwyn atal neu ganfod twyll. Mae staff y Gwasanaeth a'r Gronfa yn cael hyfforddiant ar faterion diogelu data.

- **Hawliau i Ryddid Gwybodaeth**
  Nid oes dim o fewn y datganiad polisi hwn yn effeithio ar hawliau aelodau'r Cynllun i gael neu dderbyn gwybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.